



Sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

Making communications work **for everyone**

Y Gronfa Radio Cymunedol

Adroddiad diwedd blwyddyn: 2016/17

Dyddiad cyhoeddi:

Datganiad

Mehfin 2017

Gair am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar sut cafodd y Gronfa Radio Cymunedol ei gweinyddu yn 2016/17. Mae'r Adran dros Ddiwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) wedi gofyn i Ofcom weinyddu Cronfa Radio Cymunedol. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn rhoi swm o arian i'r Gronfa bob blwyddyn a chaiff grantiau eu dyfarnu i orsafoedd radio cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom.

Mae'r adroddiad yn nodi faint o arian a roddwyd ar ffurf grantiau, pa orsafoedd a gafodd grantiau ac at ba ddibenion y dyfarnwyd y grantiau.

Cynnwys

Adran

1	Y Gronfa Radio Cymunedol - Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2016/17
---	--

Tudalen

4

Atodiad

1	Dyfarniadau i orsaf yn 2016/17
---	--------------------------------

Tudalen

7

Adran 1

Y Gronfa Radio Cymunedol - Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2016/17

- 1.1 Mae'r Gronfa Radio Cymunedol ("y Gronfa") yn bodoli i helpu'r rheini sy'n dal trwyddedau radio cymunedol a chefnogi costau craidd sy'n codi wrth ddarparu gwasanaethau radio cymunedol.
- 1.2 Mae Ofcom yn gweinyddu'r Gronfa ar ran yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae'r arian sy'n cael ei ddyrannu i'r Gronfa yn cael ei roi ar ffurf grantiau, yn dilyn proses ymgeisio ffurfiol.
- 1.3 Panel y Gronfa Radio Cymunedol ('y Panel') sy'n penderfynu ar y ceisiadau am grant ac mae'r Panel yn adrodd i Fwrdd Ofcom.
- 1.4 Roedd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dyrannu £392,500 i'r Gronfa ar gyfer y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017.
- 1.5 Cyfarfu'r Panel ddwywaith yn ystod y flwyddyn i ystyried y ceisiadau am grantiau – ym mis Mehefin 2016 ac ym mis Ionawr 2017.

Crynodeb o'r taliadau

- 1.6 Yn y rownd gyntaf, dyfarnwyd gwerth £201,365 o grantiau i 12 gorsaf.
- 1.7 Yn yr ail rownd, dyfarnwyd gwerth £191,135 o grantiau i 13 gorsaf arall.
- 1.8 Dros y ddwy rownd cyllido, cafodd 116 o geisiadau eu hystyried, gan ofyn am gyfanswm o £1,922,046 (£927,815 yn y rownd gyntaf a £994,231 yn yr ail rownd). Roedd 25 o ymgeiswyr wedi cyflwyno cais yn y naill rownd a'r llall, ac roedd wyth ohonynt yn llwyddiannus (un yn y rownd gyntaf, a saith yn yr ail rownd).
- 1.9 Roedd y grantiau a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn yn amrywio o £3,000 i £33,897, gyda'r taliad cyfartalog yn £15,700. (Edrychwch ar [Atodiad 1](#) i weld rhestr o'r dyfarniadau unigol).

Blaenoriaethau'r Panel

- 1.10 Mae Ofcom yn cyhoeddi datganiad gan y Panel yn dilyn pob rownd cyllido sy'n nodi'r dyfarniadau a wnaed, yn ailadrodd blaenoriaethau cyllido parhaus y Panel, ac sy'n cynnwys sylwadau ychwanegol.
- 1.11 Pwysleisiodd y Panel na all roi grantiau i bob gorsaf sy'n gwneud cais gan mai hyn a hyn o arian sydd ar gael i'w roi ar ffurf grantiau. Mae'n ystyried lefel angen yr ymgeiswyr, yn ogystal â'r budd a ddisgwylir o gael grant.
- 1.12 Mae'r Panel yn parhau i ystyried bod codi arian a hyrwyddo cynaliadwyedd tymor hir yn weithgareddau craidd, hanfodol. Mae felly'n parhau i ffafrio cynigion sydd â'r nodau hyn. Dylai'r ymgeiswyr ddarparu targedau ariannol clir ar gyfer swyddi codi arian. Mae'r Panel hefyd yn parhau i gredu bod modd cydweithio neu gyflwyno ceisiadau ar y cyd rhwng gorsafoddedd.
- 1.13 Roedd y rhan fwyaf o geisiadau am grantiau ar gyfer swyddi gwerthu, codi arian a datblygu busnes. Mae'r datganiadau cryno o'r dyfarniadau, a sylwadau ychwanegol gan y Panel ar gael yn: <http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/community-radio-fund/>

Monitro grantiau

- 1.14 Mae'r Panel wedi rhoi gweithdrefn adrodd ar waith i wneud yn siŵr bod y dyfarniadau grant yn cael eu gwario fel y cytunwyd arno. Rhoddir cytundeb grant ar waith rhwng Ofcom a phob trwyddedai sy'n cael grant, ac mae hwn yn nodi telerau'r dyfarniad, gan gynnwys cyfnod gwario. Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau adroddiad ('adroddiad grant') sy'n rhoi manylion ynghylch sut roedden nhw wedi gwario eu dyfarniad. Os na chyflwynir adroddiad boddhaol, efallai y bydd y Panel yn gofyn am y grant yn ôl ac efallai na fydd yn ystyried rhoi grant arall i'r trwyddedai.
- 1.15 Mae'r adroddiadau ar gyfer rownd cyllido gyntaf 2015/16, yr oedd yn rhaid eu cyflwyno erbyn mis Tachwedd 2016, wedi cael eu cyflwyno gan bob un o'r 12 a gafodd grant ac eithrio dau. Roedd y ddau nad oeddent wedi cyflwyno adroddiadau ddim yn gweithredu gwasanaethau radio cymunedol mwyach: Teesdale Community Broadcasting Limited (Radio Teesdale) a ddaeth yn fethdalwr ym mis Mehefin 2016, gan ildio ei drwydded; a Hub Media C.I.C. (The Hub), lle'r oedd y cyfarwyddwyr i gyd wedi ymddiswyddo, a rhoddodd y gorau i ddarlledu ym mis Hydref 2016.
- 1.16 Ni fydd yr adroddiadau grant ar gyfer yr ail rownd cyllido yn 2015/16 yn cael eu cyflwyno tan ddiwedd mis Mehefin 2017. Nid ydy'r cyfnod gwario ar gyfer y trwyddedigion a gafodd ddyfarniadau gan y Gronfa yn 2016/17 wedi dod i ben eto, ac felly ni ofynnwyd am yr adroddiadau grant eto.
- 1.17 Yn y rownd gyntaf o ddyfarniadau 2016/17 a wnaed fis Mehefin diwethaf, cafodd West Wolds Radio Limited (West Wolds Radio) £14,750 ar gyfer Swyddog Datblygu Busnes. Fodd bynnag, ym mis Medi 2016, penderfynodd y trwyddedai gau'r orsaf; roedd ei fwrdd yn teimlo nad oedd digon o gefnogaeth gan wirfoddolwyr er mwyn galluogi'r orsaf i barhau.
- 1.18 Yn dilyn y penderfyniad i ildio ei drwydded radio cymunedol, gofynnwyd i West Wolds Radio Limited ddarparu adroddiad ar wariant y grant, ac ad-dalu unrhyw symiau nad oeddent wedi cael eu gwario at y diben a ddynodwyd yn y grant. Cafwyd adroddiad a oedd yn rhoi manylion y swm a oedd wedi cael ei wario ar ddeilydd y swydd, a chafodd £10,696 oedd heb ei wario ei ddychwelyd i'r Gronfa ym mis Ionawr 2017.

Y sector radio cymunedol a dyfodol y Gronfa

- 1.19 Mae'r sector radio cymunedol wedi parhau i dyfu: roedd 245 o orsafoedd yn darlledu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2016/17, wrth gymharu â 238 yn 2015/16.
- 1.20 Yn wreiddiol, roedd disgwyl y byddai'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn darparu £400,000 ar gyfer y Gronfa yn y flwyddyn ariannol 2016/17. Fodd bynnag, dyfarnodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon £7,500 i'w ddefnyddio gan brosiectau cyfryngau cymunedol eraill, a oedd yn gadael £392,500 i'r Gronfa.
- 1.21 Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cadarnhau y bydd yn parhau i ddarparu arian i'w ddefnyddio yn y Gronfa ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf, hyd at a gan gynnwys y flwyddyn ariannol 2019/20.

Aelodau'r Panel

- 1.22 Mae'r Panel yn cynnwys tri aelod a benodwyd gan Ofcom. Ar gyfer 2016/17 dyma oedd yr aelodau: Wendy Pilmer, Cadeirydd y Panel, sy'n ymgynghorydd sy'n gweithio gyda phrif ddarllledwyr y byd i weithredu strategaeth a rheoli newid; Richard Hilton, Pennaeth Cyfrifyddu Rheoli yn Business in the Community, elusen a mudiad aelodaeth sy'n gweithio

gyda chwmnïau i wella effaith gadarnhaol busnesau ar gymdeithas¹; a Fiona Lennox, Cyfarwyddwr Gweithredol y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu sydd â phrofiad helaeth mewn strategaeth, polisi, ymchwil a rheoli yn y maes cyfathrebu.

¹ Richard Hilton ydy cynrychiolydd enwebedig y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol ar y Panel.

Atodiad 1**Dyfarniadau i orsafoedd yn 2016/17****Rownd 1**

Swm	Diben	Enw'r Orsaf	Lleoliad
£33,897	Prosiect 'Health FM'*	ALL FM	Manceinion
£24,276	Rheolwr Datblygu Busnes	Radio Sangam	Huddersfield
£18,504	Swyddog Datblygu Busnes	Bishop FM 105.9	Bishop Auckland, Swydd Durham
£17,602	Cydlynnydd Datblygu Busnes	Koast Radio	Ashington, Northumberland
£17,221	Rheolwr Datblygu Busnes a Chynaliadwyedd	Cando FM	Barrow-in-Furness
£16,500	Rheolwr Gorsaf	Nevis Radio	Fort William
£15,000	Swyddog Datblygu Busnes	In2Beats	Bedford
£15,000	Rheolwr Datblygu Busnes	Revival FM	Cumbernauld
£14,750	Swyddog Datblygu Busnes	West Wolds Radio	Pocklington, Swydd Efrog
£12,965	Swyddog Datblygu Busnes a Gwerthu	Gravity FM	Grantham
£12,650	Swyddog Codi Arian a Marchnata	Uckfield FM	Uckfield, East Sussex
£3,000	Prosiect rhanbarthol Radio Hub**	Gateway 97.8	Basildon, Essex
£201,365	Cyfanswm		

* Nod y prosiect hwn ydy helpu'r sector radio cymunedol yn y DU i ddarparu amrywiaeth o brosiectau iechyd mewn partneriaeth. Bydd yn cofnodi ac yn gwerthuso'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd, yn cefnogi creu prosiectau newydd yn y maes, ac yn dosbarthu canlyniadau'r prosiect i'r sector cyfan.

** Mae hwn yn brosiect i gefnogi gorsafoedd radio cymunedol ar lefel ranbarthol, yn Llundain ac yn ne ddwyrain Lloegr. Mae'n hybu cydweithio, rhwydweithio a rhannu'r ymarfer gorau, yn ogystal â chynnal gweithdai.

Rownd 2

Swm	Diben	Enw'r Orsaf	Lleoliad
£19,240	Swyddog Datblygu Busnes ac Allgymorth	Bangor FM	Bangor, Gogledd Iwerddon
£16,250	Swyddog Datblygu a Chynaliadwyedd	Beyond Radio	Caerhirfryn
£15,958	Rheolwr Datblygu Busnes	Hitmix Radio	Newcastle under Lyme
£15,436	Datblygiad Cynaliadwyedd a Phartneriaeth	BCB 106.6FM	Bradford
£15,360	Swyddog Grantiau a Chodi Arian	RadioReverb	Brighton
£15,000	Swyddog Datblygu Busnes	Biggles FM	Biggleswade
£15,000	Rheolwr Datblygu Busnes	Radio BGWS	Farnborough
£14,616	Rheolwr Busnes a Chynaliadwyedd	Destiny 105	Rhydychen
£14,460	Rheolwr Prosiect	Sunny Govan Radio	Glasgow
£14,000	Rheolwr Datblygu Busnes	HKRFM	Dwyrain Hull
£14,000	Rheolwr Datblygu Busnes	Wycombe Sound	High Wycombe
£11,715	Rheolwr Datblygu Busnes	Ribble FM	Clitheroe
£10,100	Rheolwr Cyllid	Radio Warrington	Warrington
£191,135	Cyfanswm		